# Cwrs Cymraeg Proffesiynol 2025 £100





7-11 Gorffennaf 2025

**Cwrs 5 diwrnod i siaradwyr rhugl**

For fluent Welsh speakers

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**



## Nod y Cwrs

Mae'r cwrs Cymraeg Proffesiynol yn gyfle gwych i siaradwyr rhugl wella eu sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu yn y Gymraeg mewn sefyllfaoedd proffesiynol yn ogystal â magu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith neu yn y gymuned.

## Cyfle Gwerthfawr

Mae gan gwrs o'r math hwn fanteision i weithwyr a chyflogwyr fel ei gilydd:

**I'r gweithiwr:**

- Cyfle i finiogi sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu ar gyfer gweithle dwyieithog.
- Cyfle i fagu hyder wrth gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**I'r cyflogwr:**

- Arfogi gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhugl yn y gweithle.
- Cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg.

## Amcanion

Yn ystod y cwrs cewch gyfle i wneud nifer o'r pethau a restrir isod gan flaenoriaethu yn ôl anghenion yr unigolion yn y grŵp:

- Cyfle i finiogi sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu ar gyfer gweithle dwyieithog.
- Dysgu sut i ddefnyddio geiriaduron a chael cymorth iaith ar-lein.
- Ymarfer llunio adroddiadau byr, a chymryd rhan mewn cyfarfodydd.
- Ymarfer tasgau iaith sydd yn berthnasol ar gyfer sefyllfaoedd gwaith, gan gynnwys cyfieithu darnau byrion, crynhoi trafodaeth Saesneg yn y Gymraeg, ac ysgrifennu llythyr neu e-bost yn mynegi safbwynt.
- Edrych ar nodweddion testunau cyffredin yn y gweithle.
- Cyfarfod â siaradwyr gwadd i drafod agweddau ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwaith proffesiynol.





# Llety

Mae Aberystwyth yn dref brifysgol fywiog yng nghalon Cymru, ar arfordir hardd Ceredigion - lle gwych i dreulio amser yn yr haf.

Ydych chi eisiau aros yn Aberystwyth tra byddwch chi ar y cwrs? Mae'n bosib i chi aros mewn neuadd breswyl yn y brifysgol (en-suite neu heb en-suite). Mae'r neuaddau wedi'u lleoli o fewn pellter cerdded i gampws Penglais, lle mae ein hystafelloedd dosbarth wedi'u lleoli. Mae archfarchnad fechan hefyd o fewn pellter cerdded. Am ragor o wybodaeth a chostau llety cysylltwch â Swyddfa Gynadleddau'r Brifysgol drwy siop ar-lein. (Gweler y ddolen isod.)

I archebu llety, ewch i'r siop ar-lein. Sicrhewch eich bod yn defnyddio cod hyrwyddo **CH2025** a dewis eich dyddiadau i arddangos argaeledd y llety. Rydym wedi neilltuo ystafelloedd â phris gostyngedig ar gyfer pobl sy'n mynychu'r cwrs.

Am unrhyw gwestiynau am lety'r Brifysgol, cysylltwch â'r Swyddfa Gynadleddau:
**constaff@aber.ac.uk | 0044 1970 621960**

Employees

Employees who undertake Welsh courses, especially at proficiency level, gain confidence in using the language with customers, and also gain new skills and self-assurance that can lead to promotion and / or new opportunities.

Employers

Whether big or small, employers can benefit by providing a bilingual service for their customers, and by having a workforce that is confident in using Welsh with the public.

# Cofrestru a thalu

Cost y cwrs yma yw £100 gyda gostyngiad ychwanegol o 40% i bensiynwyr, unigolion ar fudd-daliadau  a myfyrwyr aeddfed. Mae ein cyrsiau am ddim i bobl ifanc 16-25 oed ac am ddim i athrawon cymwysedig a chynorthwywyr addysgu sy'n gweithio yng Nghymru.

https://bit.ly/FfurflenCwrsProf2025

Ar ôl i chi fynegi eich diddordeb (rhaid gwenud hyn cyn 23 Mai 2025), byddwn yn cysylltu â chi. Mae lle yn gyfyngedig ar y cwrs, felly nid yw mynegi diddordeb yn unig yn sicrhau lle. Ar ôl i ni asesu eich cais, byddwn yn gofyn i chi dalu £100 (ar-lein neu dros y ffôn). Taliad sydd yn sicrhau eich lle ar y cwrs.

**Dyddiad cau: 23 Mai 2025**

# Cymorth ariannol

Eisiau cymorth ariannol with ddysgu Cymraeg? Mae modd cael cymorth ariannol gyda chostau fel gofal plant, cwrslyfrau, costau teithio a pharcio. Nid oes modd hawlio am ffioedd cwrs. Eto eleni, mae cymorth ariannol ar gael gyda chostau llety.

Bydd rhaid i chi ymgeisio am gymorth ariannol drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gael cymorth gyda llety ar gyfer y cwrs hwn erbyn 22 Ebrill 2025. Yn unol â pholisi'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, bydd angen i chi archebu a thalu'n llawn am y llety. Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais am gymorth ariannol, byddwch yn derbyn ad-daliad yn dilyn y cwrs.

**I fod yn gymwys, mae angen i chi:**

- fod wedi cofrestru ar gwrs Dysgu Cymraeg gydag un o Ddarparwyr Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol,
- fod yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn ar 31 Awst 2024,
- fod yn breswylydd sefydlog, cyfreithiol, yn y DG, a hynny ers o leiaf 3 blynedd; neu gwrdd â'r amodau preswylio yn y Canllaw Cymhwysedd Dysgwyr ar gyfer cyllid ôl-16 (manylion yn y polisi ar y wefan),
- gadarnhau y basai'n anodd cael mynediad i'ch astudiaethau heb gymorth gan y Gronfa, achos bod ystyriaethau ariannol yn rhwystr, e.e. eich bod ar incwm isel

I wneud cais ewch yma: Cymorth Ariannol

**Dyddiad cau y gronfa ariannol (llety): 25 Ebrill 2025**

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

## Cysylltu â ni

**Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys Sir Gâr**

**dysgucymraeg@aber.ac uk**
learnwelsh@aber.ac.uk

0800 876 6975

Ebost yw'r ffordd orau i gysylltu â ni.